**Papur Bwrdd (18)000**

**Papur Bwrdd i'w nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd, 16 Tachwedd 2018**

---

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Slade
Andrew Goodall
Tracey Burke
Des Clifford
Gillian Baranski
Gawain Evans
Peter Kennedy
David Richards
Jeff Godfrey
Natalie Pearson
Ann Keane
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Helena Bird

**Yn cefnogi:**
Piers Bisson
Jonathan Price
Clare Collett

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Dim

## 1. Croeso

Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod, a dywedodd wrth y Bwrdd fod y tri aelod cysgodol o'r Bwrdd, a roddwyd ar y rhestr fer yn ystod y broses recriwtio ddiweddar, wedi cael eu gwahodd i eistedd ar y Bwrdd ar sail rota bob un yn ei dro. Bydd yr aelodau cysgodol hyn hefyd yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Cyllid, hefyd ar sail rota.

Bydd y trefniadau newydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd, a bydd yr aelod cysgodol cyntaf yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ar 11 Ionawr 2019.

## 2. Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd (Brexit)

2.1 Roedd Piers Bisson, Cyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE, gan ganolbwyntio'n benodol ar y paratoadau wrth gefn sy'n ar y gweill rhag ofn inni ymadael heb unrhyw gytundeb.

2.2 Dywedodd Piers Bisson wrth y Bwrdd, er bod chwe mis i fynd cyn i'r DU ymadael â'r UE, bod yr ansicrwydd yn parhau ynghylch canlyniad y broses, yn enwedig o ran a fydd cyfnod pontio bryd hynny ynteu a fydd y DU yn ymadael heb ddod i unrhyw gytundeb.

2.3 Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y canlynol i'r Bwrdd er mwyn i'r aelodau ei thrafod:

- Paratoadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU
- Hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU
- Y trefniadau sifil wrth gefn
- Cyfathrebu; ac
- Adnoddau staffio

2.4 Hefyd, rhoddodd Piers yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddfwriaeth, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y cynlluniau cyflawni ar gyfer drafftio a gosod yr offerynnau cywiro statudol y byddai eu hangen pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

## 3. Adroddiad Cyllid

3.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, yr adroddiad cyllid misol. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at Hydref 2018 (mis 7). Roedd yn cynnwys amcangyfrif o ffigurau alldro yn erbyn cyllideb 2018-19, sef Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 ar gyfer y cyfnod hwn a chyfnodau'r dyfodol, a gafodd ei chymeradwyo ar 10 Gorffennaf 2018. Mae'r gyllideb hefyd wedi cael ei haddasu hefyd i adlewyrchu dyraniadau o gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu gwneud ers hynny, ac a fydd yn cael eu cyhoeddi yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19 yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

3.2 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn awyddus i ddefnyddio'r holl gyfalaf yng nghronfa wrth gefn Cymru er mwyn dal refeniw ychwanegol; bydd y cyfalaf yn cael ei reoli drwy negodi proffil benthyca arall gyda

Thrysorlys ei Mawrhydi. Mae’r gwaith yn mynd rhagddo gyda’r grwpiau er mwyn edrych ar y posibilrwydd o ddwyn gwaith ymlaen.

3.3

**CAM GWEITHREDU 1: GE i drafod gyda Cyllidebu Strategol yr angen am ragor o sesiynau ar Drafodiadau Ariannol**

3.4 Ar hyn o bryd mae cronfeydd wrth gefn Cymru yn gallu gwneud yn iawn am y diffyg. Fodd bynnag mae’r gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd â grwpiau i lunio opsiynau ar gyfer ymdopi ag unrhyw ostyngiadau pellach posibl. Cynhelir cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ddydd Llun i drafod opsiynau.

## 4 Y Newyddion Economaidd Diweddaraf

4.1 Rhoddodd Jonathan Price y newyddion Economaidd a Chyllidol diweddaraf, a oedd yn ymwneud â chyd-destun economaidd a chyllidol y DU, pwysau cyllidol ar y DU yn y dyfodol, cyd-destun economaidd Cymru, a senarios cyllidol a’r goblygiadau i sylfaen drethu Cymru yn y Dyfodol.

4.2 Mae crynodeb o’r cyflwyniad i’w weld isod:

- Mae Brexit yn ychwanegu at yr heriau economaidd a chyllidol sy’n bodoli eisoes yn y DU.
- Nid oes llawer o bosibilrwydd o ran cynyddu gwariant cyhoeddus mewn termau real heb ryw fath o gyfuniad o dwf cyflymach a threthi uwch.
- Gwariodd cyllideb y DU gyllid treth annisgwyl ar y GIG, ond nid yw hyn yn newid yr heriau cyllidol sylfaenol.
- Mae perfformiad economaidd Cymru yn cael ei yrru gan gyfnodau byr o ansefydlogrwydd economaidd sy’n cael eu hachosi gan ffactorau yn y DU.
- Dros y tymor canolig (ers datganoli), gwelwyd gwelliant sylweddol yn y gyfradd gymharol sydd mewn cyflogaeth, ond fawr ddim gwella o ran cynhyrchiant/cyflogau cymharol.
- Mae’r rhagolygon cyllidol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn edrych yn heriol o dan yr holl senarios.
- Gyda datganoli trethi, mae goblygiadau cyllidol i berfformiad cymharol yr economi yng Nghymru.
- Mae twf arafach yn y boblogaeth sydd yn ei hanterth o ran ei hoedran yn peri risg (ond mae’n bosibl ymateb i hyn drwy bolisïau, o leiaf yn rhannol – er y byddai’n golygu gwneud dewisiadau anodd).
- Gallai tueddiadau yn y farchnad dai ddarparu rhybudd cynnar bod y twf araf yn parhau yn y boblogaeth o’r oedran hon yng Nghymru.
- Nid yw tueddiadau yn niferoedd yr is-raddedigion a chyflogaeth graddedigion yn destun gymaint o bryder, ond mae’n bosibl y bydd colli graddedigion yn barhaus hefyd yn gyfle?

## 5 Datganiad Llywodraethu – Mecanweithiau Sicrwydd

5.1 Roedd **Clare Collett,** y Rheolwr Archwilio, yn bresennol i ddarparu rhagor o wybodaeth am y trefniadau llywodraethu, ac i sicrhau'r Bwrdd bod gwella a chynnydd yn digwydd yn barhaus. Dywedodd Clare Collett:

5.2 Yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol 2017/18 a chreu llinell sylfaen ar gyfer trefniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru yn erbyn arferion gorau'r sector cyhoeddus, ddechrau 2018 cwblhaodd David Richards ei adolygiad o'r trefniadau llywodraethu trosfwaol, ac mae ei argymhellion bellach yn cael eu gweithredu.

5.3 Daeth yr adolygiad o Gyrff Hyd Braich i ben ganol 2017, a gwnaeth nifer o argymhellion er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i wella ei dulliau ymgysylltu a chryfhau ei chysylltiadau llywodraethu â'i chyrff hyd braich.

5.4 Cafodd prosiect gweithredu ei sefydlu ac mae'r Rheolwr Gweithredu ar gyfer Cyrff Cyhoeddus bellach wedi recriwtio ar gyfer yr Uned Cyrff Cyhoeddus sydd newydd ei sefydlu. Mae'r Uned yn meddu ar fwy o gapasiti i gefnogi timau noddi drwy ddarparu canllawiau a chyngor gwell ar faterion sy'n ymwneud â chyrff hyd braich.

5.5 Mae model gweithredu newydd sy'n seiliedig ar dargedau ar gyfer rheoli grantiau wedi cael ei gymeradwyo. Y newid allweddol cyntaf fydd gwneud un tîm penodol yn gyfrifol am wneud y gwaith diwydrwydd dyladwy sy'n amddiffyn Llywodraeth Cymru rhag y perygl o dwyll wrth iddi roi grantiau.

<u>Gwneud penderfyniadau, (gan gynnwys Stiwdios Pinewood)</u>

5.6 Asesiadau o effaith i helpu Llywodraeth Cymru i fodloni gofynion Gweinidogion a statudau sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad a Senedd y DU. Mae'r dull sydd newydd ei gyflwyno ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Integredig yn symleiddio'r broses asesu a hefyd yn helpu i gynnal asesiad cynhwysfawr o effaith y cam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ac amgylcheddol.

5.7 O fewn Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, gwnaed newidiadau i gryfhau'r broses o benderfynu ynghylch darparu cymorth i fusnesau. Mae model cyffredin ar gyfer asesu'r parodrwydd i gymryd risg ac asesu'r risg yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y ceisiadau am gyllid sy'n dod i law yn cael eu gwerthuso mewn modd mwy cyson a systematig.

## 6 Y Gofrestr Risg Corfforaethol

6.1 Trafododd y Bwrdd y Gofrestr Risg Corfforaethol, gan gynnig cynnal adolygiad o faterion yn ymwneud â rheoli risg er mwyn sicrhau bod y prosesau mwyaf effeithiol ar waith. Hefyd, cytunodd y Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol cael map o'r prosesau o reoli/uwchgyfeirio risgiau o fewn is-bwyllgorau, y Pwyllgor Gweithredol, a'r Bwrdd. Gofynnodd fod unrhyw gylch gorchwyl yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r map hwn.

6.2 Cynigiodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol y dylid cynnal sesiynau ar gyfer mynd at wraidd materion yn rheolaidd mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd yn y dyfodol, er mwyn edrych yn fanwl ar y risgiau pennaf i Lywodraeth Cymru.

6.3 Unwaith yn rhagor, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol pa mor bwysig yw hi i adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ddogfen fyw.

**CAM GWEITHREDU 2: Adolygu'r dulliau o reoli risg a mapio'r broses uwchgyfeirio.**

**CAM GWEITHREDU 3: Cylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau a'r Pwyllgor Gweithredol i gael eu diwygio i adlewyrchu'r map uwchgyfeirio.**

**CAM GWEITHREDU 4: Perchnogion i adolygu eu risgiau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.**

**CAM GWEITHREDU 5: Risgiau uchaf Llywodraeth Cymru heb eu trafod, ond i gael eu cynnwys ar agendâu'r Bwrdd yn y dyfodol, er mwyn ymdrin â nhw mewn trafodaethau sy'n mynd at wraidd y mater.**

## 7. Adroddiadau'r Is-bwyllgor:

### <u>7.1 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – y datblygiadau diweddaraf</u>

- Rhoddodd Ann Keane, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, wybod i'r Bwrdd fod cyfarfod adeiladol wedi ei gynnal ar 25 Hydref lle trafododd y pwyllgor ISO 260 gan Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, a'r sesiwn ar y Cyfrifon yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Amlinellwyd y cynlluniau ar gyfer paratoi cyfrifon 2018-19. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gawain Evans am ei waith ar gyfrifon 2017/18.

- Hefyd trafodwyd y bwriad i ddefnyddio dull gweithredu mwy systematig i adrodd ar y sicrwydd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yng nghyd-destun tracio camau gweithredu sy'n ymwneud ag adroddiadau Archwilio Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## 7.2 Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil:

- Rhoddodd Jeff Farrar yr wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a gynhaliwyd ym mis Medi. Bu trafodaeth ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth o fewn Llywodraeth Cymru

- Hefyd dywedodd Jeff fod y Pwyllgor wedi trafod dangosfwrdd yr Uwch Wasanaeth Sifil, a oedd yn ystyried manylion megis proffiliau oedran, amseroedd yn y swydd, cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol, a swyddi gwag, a chytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael naratif am newidiadau sy'n digwydd dros gyfnod o amser.

## 7.3 Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol:

- Rhoddodd David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch cyfarfod diwethaf Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r cynnydd a wnaed ar y Biliau.
- Dywedodd David hefyd y byddai'r Prif Weinidog newydd a'r Cabinet yn cael eu gwahodd i adolygu'r Rhaglen.
  .

**Y camau gweithredu a gododd o gyfarfod y Bwrdd, 16 Tachwedd 2018**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWAIN | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| GE i drafod gyda Cyllidebu Strategol yr angen i gynnal sesiynau pellach ar Drafodiadau Ariannol. | Gawain Evans | |
| Adolygu'r trefniadau rheoli risg a mapio'r broses uwchgyfeirio. | Helen Morris/ Ysgrifenyddiaeth | |
| Cylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau a'r Pwyllgor gweithredol i gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r map uwchgyfeirio. | Ysgrifenyddiaeth | |
| Perchnogion i adolygu eu risgiau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. | Pob Aelod o'r Bwrdd | |
| Risgiau uchaf Llywodraeth Cymru heb eu trafod, ond byddant yn cael eu cynnwys ar agendâu'r Bwrdd fel sesiynau mynd at wraidd y mater. | Helen Morris/ Ysgrifenyddiaeth | |

**Camau gweithredu sy'n dal heb eu cymryd 2017-18**

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWAIN | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Strategaeth Leoli** | | |
| Cynigion y Strategaeth Leoli i gael eu diweddaru a'u paratoi i'r Prif Weinidog newydd eu hystyried. | Paul Sullivan | Ar y gweill, y gwaith yn parhau |